

GORCHYMYN

DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG Y FFYRDD 1984

GORCHYMYN CYNGOR SIR CEREDIGION (TERFYNAU CYFLYMDER 20 MYA, 30 MYA, 40 MYA A 50 MYA A FFYRDD A DDATGYFYNGWYD) (CYDGRYNHOI) 2014

Mae Cyngor Sir Ceredigion (a elwir wedi hyn "y Cyngor") wrth arfer ei bwerau o dan adrannau 82 a 84 o, a Rhan IV o Atodlen 9 i'r Ddeddf Rheoleiddio Traffig y Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd (y cyfeirir ati wedi hyn fel "Deddf 1984"), a phob pŵer galluogi arall, ac wedi ymgynghori â phrif swyddog yr heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf 1984, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol.

RHAN I – CYFFREDINOL

1. ENWI A CHYCHWYN

- (a) Gellir galw'r Gorchymyn hwn yn "Orchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Terfynau Cyflymder 20 mya, 30 mya, 40 mya a 50 mya a Ffyrdd a Ddatgyfyngwyd) (Cydgrynhoi) 2014" a daw i rym ar y 10fed niwrnod o Fehefin 2014
- (b) Ymgorfforir cynlluniau Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Terfynau Cyflymder 20 mya, 30 mya, 40 mya a 50 mya a Ffyrdd a Ddatgyfyngwyd) (Cydgrynhoi) 2014 (y cyfeirir atynt wedi hyn fel "y Cynlluniau") yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

2. DIRYMU

Bydd y Gorchymyn hwn yn dirymu pob gorchymyn parhaol presennol neu rannau o orchymynion parhaol sydd yn gosod terfynau cyflymder o 20 mya, 30 mya, 40 mya a 50 mya ac yn diddymu statws ffyrdd cyfyngedig yng nghyswllt ffyrdd sirol yng Ngheredigion fel y diffinnir mewn atodlenni blaenorol i'r gorchymynion hyn a wnaethpwyd cyn y Gorchymyn hwn.

3. DEHONGLIAD A DIFFINIADAU

- (a) Yn y Gorchymyn hwn, ac eithrio lle bo'r cyd-destun yn mynnu'n wahanol, mae i'r canlynol yr ystyr a roddir iddynt isod.
 - (i) golyga "Deddf 1984" Ddeddf Rheoleiddio Traffig 1984.
 - (ii) golyga "y Cyngor" Cyngor Sir Ceredigion.
 - (iii) golyga "priffordd" ffordd y gall aelodau o'r cyhoedd gael yr hawl i fynd heibio a mynd heibio eto gyda rhwydd hynt ac nid drwy oddefiad na drwy drwydded, a bydd hyn yn cynnwys y lôn gerbyd ac unrhyw droedffordd, ochr ffordd, tir diffaith ar ochr ffordd neu gyfuniadau ohonynt.
 - (iv) mae gan "gerbyd modur" yr un ystyr ag y diffinnir gan adran 136 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig y Ffyrdd 1984.
 - (v) golyga "Gorchymyn" Orchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Terfynau Cyflymder 20 mya, 30 mya, 40 mya a 50 mya a Ffyrdd a Ddatgyfyngwyd) (Cydgrynhoi) 2014.

- (vi) golyga "y Cynlluniau " gynlluniau Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Terfynau Cyflymder 20 mya, 30 mya, 40 mya a 50 mya a Ffyrdd a Ddatgyfyngwyd) (Cydgrynhoi) 2014 a restrir yn yr Atodlen a ymgorfforir yn y Gorchymyn hwn.
 - (vii) mae gan "ffordd gyfyngedig" yr un ystyr ag a ddiffinnir gan adran 82 o Ddeddf 1984.
 - (viii) mae gan "ffordd" yr un ystyr ag y diffinnir gan adran 192 o Ddeddf Traffig 1988.
 - (ix) mae "arwydd traffig" yn golygu arwydd o faint, lliw a math a ddynodwyd neu a awdurdodwyd, o dan adran 64 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig y Ffyrdd 1984.
- (b) Mae'r gorchymyn hwn ond yn berthnasol i ffyrdd sirol yng Ngheredigion. Mae cefnffyrdd a ffyrdd mewn siroedd eraill, er y dangosir hwy ar rai o'r Cynlluniau, yn amodol ar orchmynion ar wahân.
 - (c) Lle cyfeirir at yn "Orchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Terfynau Cyflymder 20 mya, 30 mya, 40 mya a 50 mya a Ffyrdd a Ddatgyfyngwyd) (Cydgrynhoi)" yn y Cynlluniau, bydd hyn yn golygu yn Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Terfynau Cyflymder 20 mya, 30 mya, 40 mya a 50 mya a Ffyrdd a Ddatgyfyngwyd) (Cydgrynhoi) 2014 a'r newidiadau iddo a wneir wedi hynny.
 - (d) At amcanion y Gorchymyn hwn bydd y cyfyngiadau a chodi cyfyngiadau a gynhwysir yn yr erthyglau i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir ar y Cynlluniau yn berthnasol i led cyfan l y briffordd.
 - (e) Bydd y terfynau a'r codi cyfyngiadau a osodir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at ac ni fyddant yn rhan-ddirymu unrhyw gyfyngiad a osodir gan unrhyw reoliadau neu orchmynion a wnaethpwyd o dan Ddeddf 1984, neu sydd ag effaith felly, neu o dan unrhyw ddeddfwriaeth arall, gan gynnwys terfynau cyflymder ar gyfer dosbarthiadau penodol fel ag y disgrifir yn Atodlen 6 i Ddeddf 1984, ac eithrio'r gorchmynion hynny sydd yn cael eu diddymu yn Erthygl 2 y Gorchymyn hwn.
 - (f) At amcanion y Gorchymyn hwn, nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw anghywirdeb a gynhwysir yn y data Arolwg Ordnans y dibynwyd arno wrth baratoi'r Cynlluniau. Lle bo cyfyngiad neu lle codir cyfyngiad ar ddarn o briffordd, bydd y cyfyngiad hwnnw neu'r codi cyfyngiad yn parhau hyd union ymyl y briffordd, hen ystyried newidiadau i naill ai lled y briffordd neu'r data Arolwg Ordnans sylfaenol.
 - (g) Bydd unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu atodlen sydd wedi eu rhifo, oni bai bo'r cyd-destun yn gofyn fel arall, yn cael ei ystyried fel cyfeiriad at yr erthygl neu'r atodlen sydd â'r rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn, a bydd unrhyw gyfeiriad at gynllun yn gyfeiriad at gynllun a ymgorfforir yn y Gorchymyn hwn.
 - (h) Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol i ddehongli'r Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol i ddehongli Deddf Seneddol.
 - (i) Bydd unrhyw gyfeiriad at y Gorchymyn hwn neu at unrhyw ddeddfiad yn cael ei ystyried fel cyfeiriad at y deddfiad hwnnw fel y'i diwygir gan unrhyw ddeddfiad wedi hynny.
 - (j) At amcanion y Gorchymyn hwn, caiff y canlynol eu cydgrynhoi fel terfynau cyflymder 30 mya a wnaethpwyd o dan adran 84 o Ddeddf 1984:

- (i) terfynau cyflymder 30 mya ar ffyrdd cyfyngedig at amcanion adran 81 o Ddeddf 1984.
- (ii) terfynau cyflymder 30 mya a wneir drwy gyfyngu ffordd o dan adrannau 82 a 83 o Ddeddf 1984.
- (iii) terfynau cyflymder o 30 mya a wnaethpwyd o dan adran 84 o Ddeddf 1984.

RHAN II – DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

- 4. Ni chaiff unrhyw un yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder sydd mwy na 20 mya ar y rhannau o'r ffordd a nodir fel "20 mya" ar y Cynlluniau a atodir i'r Gorchymyn hwn.
- 5. Ni chaiff unrhyw un yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder sydd mwy na 30 mya ar y rhannau o'r ffordd a nodir fel "30 mya" ar y Cynlluniau a atodir i'r Gorchymyn hwn.
- 6. Ni chaiff unrhyw un yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder sydd mwy na 40 mya ar y rhannau o'r ffordd a nodir fel "40 mya" ar y Cynlluniau a atodir i'r Gorchymyn hwn.
- 7. Ni chaiff unrhyw un yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder sydd mwy na 50 mya ar y rhannau o'r ffordd a nodir fel "50 mya" ar y Cynlluniau a atodir i'r Gorchymyn hwn.
- 8. Bydd y rhannau o'r ffordd a nodir fel "Y rhannau o'r ffordd sydd wedi eu goleuo yn ateboli gyfyngiadau cyflymder cenedlaethol (codi gyfyngiad)" arnynt, ar y Cynlluniau a atodir i'r Gorchymyn hwn, a byddant yn peidio â bod yn ffyrdd cyfyngedig at amcanion adran 81 o Ddeddf 1984.
- 9. Ni fydd unrhyw beth yn Erthyglau 4, 5, 6, 7 and 8 o'r Gorchymyn hwn yn annilysu unrhyw eithriad fel y disgrifir yn adrannau 87 o Ddeddf 1984 neu unrhyw ran o Reoliadau Eithriadau Traffig y Ffyrdd (Lluoedd Arbennig) (Amrywiad a Newidiad) 2011.

RHAN III – DILYSRWYDD

- 10. Os bydd llys neu Lywodraeth Cymru yn datgan bod unrhyw ran o'r Gorchymyn hwn yn annilys neu na ellir ei orfodi, ni fydd datganiad o'r fath yn annilysu gweddill y Gorchymyn.

RHODDWDYD o dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Ceredigion ar y 6ed niwrnod o Fehefin Dwy Fil Un Deg Pedwar.

6297

Gosodwyd SÊL GYFFREDIN
CYNGOR SIR CEREDIGION
yma ym mhresenoldeb)
)
)



John Adams-Jones

Cadeirydd

[Signature]

Ar ran

Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd.

Rheolwr Grŵp y Gwasanaethau
Cyfreithiol

ATODLEN

MAPIAU TROSOLWG

Map Trosolwg Ceredigion
Map Canolradd Ceredigion 1 o 5
Map Canolradd Ceredigion 2 o 5
Map Canolradd Ceredigion 3 o 5
Map Canolradd Ceredigion 4 o 5
Map Canolradd Ceredigion 5 o 5

MAP CE

IS-FAPIAU

CE16	N12, P12, Q12, R12, S12, T12
CE17	S05, S06, T06, U06
CE26	C12, D12, E12, F12, G12, H12, J11, J12, J13, K10, K11, K12, K13, K14, L14, L15, M15, N15, N16, P15, P16, Q15, R15, R16, S16, T15, T16, U15
CE27	A05, A06, B06, F05, H05
CE36	A15, B13, B14, C10, C11, C14, D10, D11, D15, D16, E15, E16, F15, G07, G08, G09, H07, H08, H09, H10, H13, H16, J07, J08, J09, J10, J11, J13, J16, K06, K07, K08, K09, K10, K11, L06, L07, L08, L09, L10, L11, L12, M06, M07, M08, M09, M10, M11, M12, N06, N08, N09, N10, N11, N12, P06, P07, P08, P09, P11, P12, P13, Q08, Q09, Q10, Q12, Q13, R08, R09, S16, T08, T09
CE37	A03, B03, C02, C03, C04, C05, D01, D02, D03, D04, E01, P06, P07, Q06, S01, S02, T02, T03
CE38	M08, M09, N08, N09, P08
CE46	A08, B08, B09, C08, C09, C16, D08, D16, J05, J15, K13, K14, K15, L14
CE47	D01, E01, N07, P07, R12, R13, S11, S12, S13, T10, T11, U11
CE48	C07, D06, D07, E05, E06, F05, G05, G06, M15, N14, N15, N16, P16, R07, S06, S07, T06, U05, U06
CE55	F14, F15, G14, G15, N09, N10, P09, P10, T15, U15
CE56	C10, D09, D10
CE57	C03, D02, D03, E02, E03, F02, F03, F04, M02, M14, M15, N02, N15, N16, P02, P03, Q02
CE58	A04, A05, B04, B05, L05, L06, L07, M07, N01, N04, P04, Q04, R03, R04, R05, S05
CE63	P15, P16, Q15, Q16, R15, R16, S15, S16, U15
CE64	F13, F14, G13, G14, H13, H14, H15, J13, J14, J15, K13, K14, L12, L13, L14, L15, M12, M15, N11, N12, P11, P12, R10, S01, S10, S11, T01, T02, U01, U02

CE65 A15, B14, B15, C14, C15, D15, E09, F07, F08, F09, F10, G08, G09, N10, N11, N12, P09, P10, P11, P12, Q10, S05, S06, T06, T07, U06

CE66 D03, D04, E04, E05, F05, F10, G08, G09, G10, H09, H10, J09, J10, K10, Q14, Q15, R13, R14, S14

CE67 P10, Q10, Q11, R09, R10, R11, S02, S09, S10, T02, T09

CE72 N16, P16

CE73 A15, B15, C16, D16, H13, H14, J13, J14, M03, M04, M05, N01, N02, N03, N05, N06, P01, P04, P05, Q03, Q04, S12, T12

CE74 B06, B07, B12, B13, C06, C07, C08, D06, G01, H01, J01, J02, J13, J14, K01, K02, K13, K14, L02, M02, M03, N03

CE75 F15, G03, G11, G12, G15, H03, H04, H10, H11, H12, J12, M13, M14, N13, N14, U10

CE76 Q12, R11, R12, S11, U09

CE77 H06, J04, J05, J06, J07, K06, K07

CE81 F07, G06, G07, G08, H07, L06, L12, L13, M05, M06, M12, M13, N05, N06, N09, P05, P06, P07, P08, P09, Q05, Q06, Q07, Q08, R05, R06, R07, S04, S05, S06, S07, T05, T06, U06

CE82 A03, A04, A05, A06, B03, B04, B05, B06, B07, B16, C03, C04, C05, C06, C07, D04, G02, G03, G05, H02, H03, H05, J03, J05, L14, M14, N14, N15, Q12, R12, S11, S12, T13, U13, U14

CE83 B01, B04, C01, C04, L13, M07, M08, M13, N07, N08, N12, N13, P07, P08, P13, Q07, U02, U03, U09

CE84 B07, C07, C08, D06, D07, E06, E07, E08, F08, R10, R16, S06, S10, S11, S16, T06, T10, T11, U10, U11

CE85 A10, B10, C10, C11, D02, D03, E03, L03, L04, M03, M04, M05, N03, N04, N12, N13, N16, P12, P13, P16, Q13, Q14, R01, R06, S01, S02, S06, S07, S11, S12, T05, T06, T07, T10, T11, U10

CE86 A09, H05, J05, J06, J10, J11, J12, K05, K06, K09, K10, L03, L04, L05, L06, L09, M03, M05, M06, M07, N02, N03, N05, N06, P01, P02

CE91 A11, B11, B12, B13, C12, C13, D13, D14, E13, E14, E15

CE92 A14, B14, H11, H12, J12, J13, K07, K08, K12, K13, K16, L08, L15, L16, M15, M16, N15, N16

CE93 A03, A09, A10, B09, B10, B14, B15, C14, C15, H13, H16, J05, J12, J13, K05, K09, K10, K11, K12, K13, L03, L04, L05, L08, L09, M04, N09, N10, N11, P09, P10

CE94 A10, A11, C07, C08, D06, D07, E12, F12, F13, G01, G13, H01, H02, H12, H13, J02, J03, J12, J13, K02, K03, K04, K13, L04, L06, L13, M04, M05, M06, N03, N04, N05, N06, P04, P05, P06

CE95 A10, B10, C10